# Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol

# Cyngor Bro Morgannwg

# 2016 - 2017

**Gallwch ofyn am y ddogfen hon mewn ffurfiau eraill.**

**Er enghraifft: ffont mwy; ar bapur lliw gwahanol.**

.

.

# Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg
# 1 Ebrill 2016– 31 Mawrth 2017

## Cynnwys


Cynnwys ....................................................................................3

Cefndir .......................................................................................3

Camau a gymerwyd i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol ...................5

Rhesymau dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol .........................7

Datganiad ar effeithiolrwydd y camau a gymerwyd i ddiwallu bob un o'n hamcanion cydraddoldeb.............................................................7

Materion eraill sy'n berthnasol i'r ddyletswydd gyffredinol a dyletswyddau penodol.........................................................................16

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb .................................... 16
Hyfforddiant.................................................................... 17
Ymgyrch Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth 2016 – 2017 .......... 17
Cydraddoldeb Hiliol yn Gyntaf ............................................... 19
Gwasanaeth Cyngor Atal Gwahaniaethu ................................ 20
Fforwm Adrodd a System Adrodd Sipsiwn a Theithwyr 2016 - 2017 ................................................................................ 20
Cynllun Hyder Anabledd......................................................... 21
Cyngor Awtistiaeth Oedolion (2016 - 2017) ............................. 22
Fforwm Strategaeth 50+ y Fro 2016 - 2017 .............................. 24
Datblygu'r Celfyddydau .......................................................... 29
Gwasanaethau Hamdden 2016 – 2017 .................................... 30
Gweithio fel Pencampwr Amrywiaeth Stonewall....................... 38
Gwerthuso Swyddi .................................................................. 38
Cynllun Gweithlu (2016 – 2020) .............................................. 39

Gwybodaeth benodol ynghylch cyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth ar hyfforddiant a thâl....................................................40

Sut i gysylltu â ni ..................................................................................42

# Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg
# 1 Ebrill 2016– 31 Mawrth 2017

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am ein gwaith cydraddoldeb rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017. Rydym yn gwneud hyn i gyflawni ein dyletswyddau dan:

- Deddf Cydraddoldeb 2010;
- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (a elwir y 'ddyletswydd gyffredinol'); a
- y dyletswyddau penodol i Gymru.

Rydym yn dweud wrthych sut rydym wedi casglu a defnyddio gwybodaeth i:

- ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon;
- datblygu cydraddoldeb cyfle; a
- maethu cysylltiadau da.

Rydym hefyd yn dweud wrthych am:

- sut rydym yn dod ymlaen gyda'n hamcanion cydraddoldeb;
- y bobl a gyflogwn; a
- gwaith cydraddoldeb arall.

## Cefndir

Rydym wedi disgrifio ein prif waith cydraddoldeb yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Fe gytunon ni ar y cynllun hwn ym mis Mawrth 2016. Mae'n seiliedig ar ein cynllun gwreiddiol o 2012. Roedd nifer o bethau yr oedd rhaid i ni eu gwneud i ddatblygu'r cynllun cyntaf. Rydym yn rhestru'r prif gamau isod.

- Fe edrychon ni ar faint o wybodaeth yr oedd gennym ar y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Roedden ni eisiau gwybod pa **grwpiau a ddiogelir** oedd yn defnyddio ein gwasanaethau.

- Fe wnaethon ni gwrdd â sefydliadau lleol i weld a oedd meysydd y gallen ni weithio arnyn nhw gyda'n gilydd.

- Fe edrychon ni ar gynlluniau eraill i weld os oedd ganddyn nhw gamau oedd angen bod yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Roedd y cynlluniau hyn yn cynnwys y Strategaeth Gymunedol, y Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

- Fe drefnon ni ddigwyddiadau i ni gwrdd â sefydliadau eraill sydd â diddordeb yn anghenion y grwpiau a ddiogelir. Fe aethon ni i'w cyfarfodydd nhw os nad oedden nhw'n gallu dod i'n rhai ni.

- Fe ymgynghoron ni â'r cyhoedd, staff ac undebau masnach.

- Fe siaradon ni â phobl ynglŷn â'r hyn y dylen ni ei flaenoriaethu.

Fe wnaeth hyn ein helpu i benderfynu ar ein hamcanion cydraddoldeb. Mae'r rhain yn rhan bwysig o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Fe wnaethon ni ymgynghori â phobl eto tua diwedd 2015 i'n helpu ni i benderfynu sut i ddiweddaru'r cynllun. Y brif neges oedd parhau i weithio ar y meysydd yr ydym eisoes yn gweithio arnynt. Rydym wedi datblygu'r rhain gan ddefnyddio ymchwil mwy diweddar megis 'Is Wales Fairer' gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Rydym hefyd wedi gwneud cysylltiadau gyda'n Cynllun Corfforaethol.

I sicrhau ein bod yn cyflawni'r amcanion cydraddoldeb, fe wnaethon ni roi camau mewn cynlluniau gwasanaeth. Mae'r cynlluniau hyn yn arwain gwaith pob gwasanaeth (megis

Gwasanaethau Tai, Gweladwy a Chymdeithasol). Mae'n rhaid i bob gwasanaeth fonitro cynnydd gyda'r camau hyn ac adrodd ar hyn.

Mae Arweinydd y Cyngor yn arwain ar faterion cydraddoldeb. Mae cyfarwyddwyr yn arwain ar eu gwasanaeth eu hunain.

Rydym yn cael gwybodaeth am y materion a'r canllawiau diweddaraf mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys trwy'r rhwydwaith Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

## Camau a gymerwyd i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol

Rydym wedi bod yn casglu gwybodaeth am bwy sy'n defnyddio ein gwasanaethau am beth amser. Nid ydym bob amser wedi gwneud hyn yn yr un ffordd ar draws y Cyngor. Hefyd, nid ydym wedi casglu data ar yr holl grwpiau a ddiogelir.

Am y rheswm hwn, yn 2011, fe ddyfeision ni ffurf newydd gan siarad â rheolwyr i esbonio pa mor bwysig yw ei ddefnyddio. Fe wnaethon ni annog gwasanaethau i wella sut maen nhw'n defnyddio'r wybodaeth hon i'w helpu i gynllunio eu gwaith i ddiwallu anghenion pobl yn well.

Pan ddechreuon ni, fe edrychon ni ar wybodaeth gan wasanaethau allweddol:

- llyfrgelloedd;
- tai;
- amddiffyn y cyhoedd;
- budd-dal tai; a
- gwasanaethau cymdeithasol.

Yn adroddiad eleni, fe wnaethon ni adrodd ar fwy o wasanaethau nag yr ydym wedi'i wneud o'r blaen:

- Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth
- Datrysiadau Tai
- Cefnogi Pobl
- Budd-daliadau Tai a Gostyngiad yn y Dreth Gyngor
- Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc
- Gwasanaethau Oedolion
- Refeniw a Budd-daliadau
- Gwasanaeth Ieuenctid
- Tîm Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
- Rheoleiddio a Chynllunio
- Cwynion Corfforaethol
- Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (amddiffyn y cyhoedd gynt)
- Cyfathrebu
- Cyrhaeddiad i Bawb – Dysgu a Sgiliau
- Cofrestru

Pan rydym yn edrych ar y wybodaeth a gasglwyd, rydym yn ystyried:

- y data a gasglwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf;
- y systemau a ddefnyddiwyd i gasglu'r data; ac
- adroddiadau sampl.

Mae hyn yn ein helpu i nodi bylchau o ran y wybodaeth. Fe siaradon ni am y bylchau hyn gyda rheolwyr.

Rydym yn gallu esbonio i reolwyr pam bod angen iddynt gasglu'r wybodaeth. Rydym yn defnyddio'r canllaw gan Stonewall i wneud hyn. Gallwch weld y canllaw yn Atodiad 1. Mae'r ffurflen a ddefnyddiom i gasglu'r wybodaeth yn Atodiad 2.

Gallwch gael y wybodaeth cydraddoldeb y mae gwasanaethau wedi'i chasglu yn Atodiad 4. Mae pob gwasanaeth yn dweud sut maen nhw wedi defnyddio'r wybodaeth i ddiwallu tri nod y ddyletswydd gyffredinol.

Mae'r ffurflen a ddefnyddiwn i gasglu gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn yn annog gwasanaethau i ddangos sut maent wedi defnyddio'r wybodaeth i wneud gwelliannau i wasanaethau.

## Rhesymau dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol

Mae rhai o'r rhesymau dros beidio â chasglu gwybodaeth yn cynnwys:

- staff yn gofyn i ddefnyddwyr am wybodaeth bersonol wyneb yn wyneb;
- defnyddwyr ddim eisiau cwblhau ffurflen arall yn ychwanegol i ffurflen gais hir;
- pryder nad yw arolygon cyfyngedig yn adlewyrchu darlun cywir;
- ddim gyda systemau i gasglu'r wybodaeth.

Rydym yn annog rheolwyr i esbonio pa mor bwysig yw'r wybodaeth hon. Gellir ei defnyddio i helpu i wella gwasanaethau.

## Datganiad ar effeithiolrwydd y camau a gymerwyd i ddiwallu bob un o'n hamcanion cydraddoldeb

Dyma amlinelliad byr o sut rydym wedi datblygu ein hamcanion gwreiddiol. Gallwch gael manylion llawn hyn yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf.

- Fe wnaethon ni ddefnyddio ymchwil genedlaethol i'n helpu i ddeall y materion. Er enghraifft, fe edrychon ni ar yr adroddiadau 'How Fair is Wales', a 'Not Just Another Statistic'. Y Comisiwn Hawliau Dynol a Chydraddoldeb a gynhyrchodd yr adroddiadau hyn.

- Fe edrychon ni ar p'un a oedd gennym unrhyw wybodaeth yn y Cyngor i roi mwy o fanylion i ni.

- Fe siaradon ni â grwpiau ynghylch lles y grwpiau a ddiogelir.

- Fe ymgynghoron ni â'n staff ein hunain a'r cyhoedd.

- Fe gytunon ni ar yr amcanion cydraddoldeb y bydden ni'n gweithio arnynt am y 4 blynedd nesaf.

I adolygu ein hamcanion, edrychon ni ar ymchwil mwy diweddar megis 'Is Wales Fairer' gan y Comisiwn Hawliau Dynol a Chydraddoldeb. Fe wnaethon ni ymgysylltu ac ymgynghori hefyd.

Yn dilyn hyn, fe gytunon ni ar ein hamcanion cydraddoldeb. Rydym yn dangos pa waith rydyn ni wedi'i wneud ar y rhain isod.

**Amcan 1: Casglu a dadansoddi data gwasanaeth yn ôl nodweddion a ddiogelir fel bod gwasanaethau yn diwallu anghenion amrywiol y cyhoedd**

Rydyn ni wedi cynyddu nifer y gwasanaethau sy'n casglu a dadansoddi data yn ôl nodwedd a ddiogelir. Mae gwasanaethau yn edrych ar y wybodaeth hon i weld sut allan nhw wella gwasanaethau i bobl mewn grwpiau a ddiogelir. Mae gwasanaethau hefyd yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon wrth feddwl am yr effaith ar gydraddoldeb wrth wneud newidiadau i'w gwasanaethau.

Gallwch weld mwy am hyn yn Atodiad 4.

**Amcan Cydraddoldeb 2: Cau bylchau cyrhaeddiad plant mewn grwpiau a ddiogelir**

Rydym wedi edrych ar sut i gau bylchau cyrhaeddiad mewn nifer o ffyrdd.

**Lles**

**i) Presenoldeb**

Rydym yn monitro data presenoldeb grwpiau agored i niwed yn agos ac mae swyddogion o’r Gwasanaeth Lles Addysg yn defnyddio’r data i dargedu ysgolion am gymorth.

Rydym yn monitro presenoldeb grwpiau o blant yr ydyn ni’n credu sy’n ddysgwyr agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys plant sy’n derbyn prydau ysgol am ddim, sy’n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, â Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY), neu ag anghenion addysgol arbennig (AAA).

Mae presenoldeb disgyblion sy’n derbyn prydau ysgol am ddim wedi cynyddu gan 1.5% dros y 3 blynedd diwethaf er mae’n parhau i fod yn is na’r presenoldeb cyffredinol ar gyfer disgyblion uwchradd. Cynyddodd presenoldeb uwchradd yn gyffredinol gan 0.8% dros yr un cyfnod felly mae’r bwlch yn cau ond mae angen gwelliannau.

Mae presenoldeb disgyblion sy’n derbyn prydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd yn peri mwy o bryder gan ei fod wedi gostwng gan 0.3% dros y 3 blynedd diwethaf. Gan fod y presenoldeb cyffredinol wedi aros yr un fath dros y cyfnod hwn, mae’r bwlch rhwng disgyblion sy’n derbyn prydau ysgol am ddim a phresenoldeb cyffredinol yn cynyddu.

Eleni, mae'r Gwasanaeth Lles Addysg wedi canolbwyntio ar waith gwella ysgol yn y sector cynradd. Rydym yn cwrdd â’r Penaethiaid, swyddogion arweiniol dros bresenoldeb, a staff gweinyddol.

Yn y cyfarfodydd hyn, rydym yn ystyried sut mae systemau ysgol yn gweithio, sut y gallwn eu gwella, a chraffu ar y defnydd o godau presenoldeb. Rydym hefyd yn nodi disgyblion lle gallai cais am Hysbysiad Cosb Benodedig neu atgyfeiriad i’r Gwasanaeth Lles Addysg fod yn briodol.

Rydym wedi newid yr Archwiliadau Presenoldeb fel eu bod nhw nawr yn cynnwys adran sy’n amlygu presenoldleb disgyblion sy’n derbyn prydau ysgol am ddim ac yn gwirio sut y caiff y Grant Amddifadedd Disgyblion ei ddefnyddio i gynyddu ymgysylltiad gyda’r grŵp hwn o blant.

Mae presenoldeb plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion uwchradd yn dangos cynnydd a gynhelir dros y 2 flynedd ddiwethaf. Mae presenoldeb disgyblion SIY yn arbennig o dda mewn ysgolion uwchradd. Roedd gan ddisgyblion AAA bresenoldeb is na disgyblion SIY a disgyblion sy'n derbyn gofal er bod presenoldeb AAA wedi gwella gan 1.2% dros y 3 blynedd diwethaf.

Mewn ysgolion cynradd, mae presenoldeb disgyblion sy'n derbyn gofal wedi bod yn dda yn gyson. Mae presenoldeb SIY wedi cynyddu rhywfaint ond yn gyffredinol mae'n foddhaol. Mae presenoldeb AAA wedi parhau ar lefel is yn gyson.

Yn ogystal â'r Gwasanaeth Lles Addysg, mae tîm Plant sy'n Derbyn Gofal a SIY y Fro yn gweithio i sicrhau cynhwysiant y grwpiau hyn o ddisgyblion trwy hyfforddiant ymwybyddiaeth, hyfforddi a herio ysgolion i wella presenoldeb. Mae timau yn y Gwasanaeth Cynhwysiant yn parhau i weithio i gynnig ymyriadau a darpariaeth briodol sy'n hyrwyddo ymgysylliad plant ag ystod eang o anghenion AAA. Gwneir hyn ar lefel unigol a grŵp yn dibynnu ar angen.

**ii) Canlyniadau Grwpiau Agored i Niwed**

Ym mhob un o'r prif ddangosyddion perfformiad ym mhob cam, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim wedi gwella ers 2012. Lle mae'r bwlch wedi ehangu mae hynny oherwydd bod y canlyniadau i'r rheiny nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim wedi gwella ar gyfradd uwch. Ar lefel 2+, mae'r bwlch o ran perfformiad rhwng disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn lleihau'n gynt yn y Fro na chyfartaledd Cymru.

Roedd disgyblion y Fro ag AAA yn cyflawni canlyniadau uwch na Chymru ym mhob dangosydd perfformiad bron a bod ac ym mhob cyfnod allweddol yn 2015. Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnod Allweddol 2, roedd canlyniadau i ddisgyblion ag AAA yn uwch nag ar gyfer Cymru gyfan ar gyfer yr holl ddangosyddion perfformiad. Hefyd, yn 2015 roedd y canlyniadau ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 yn uwch nag ar gyfer Cymru gyfan ar gyfer yr holl ddangosyddion perfformiad ac eithrio Cymraeg. Yng Nghyfnod Allweddol 4, fe wnaeth perfformiad AAA wella ar lefel 2+ ac roedd canlyniadau'n uwch na chyfartaledd Cymru gyfan ar gyfer Lefel 2 Saesneg, Cymraeg a Mathemateg.

Mae perfformiad disgyblion gyda Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) yn ysgolion y Fro yn dda ac yn unol â lefel caffael iaith disgyblion. Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus o ran cyflawni cymwysterau yn eu hieithoedd cartref yn 2016.

Mae perfformiad Plant sy'n Derbyn Gofal ym Mro Morgannwg yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yn dda ac mae llawer yn perfformio'n dda o gymharu â'u cyfoedion ledled Cymru.

Mae'r gwahaniaeth o ran perfformiad CSI rhwng disgyblion sy'n debryn prydau ysgol am ddim a'r rheiny nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim wedi gostwng o 14.8% i 14%. Tra bo'r gwelliant hwn yn un cadarnhaol, mae'n parhau'n faes y mae angen canolbwyntio arno.

Ar gyfer y trothwy lefel 2+, mae'r gwahaniaeth o ran perfformiad rhwng y rheiny sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rheiny nad ydynt yn lleihau. 37.4% oedd y ganran ar gyfer y flwyddyn academaidd ddiwethaf a 28.4% ar gyfer eleni. Tra bo hyn yn welliant sylweddol, mae'n parhau'n faes y mae angen canolbwyntio arno.

Rydym wedi gweithio'n agos â Chonsortiwm Canolbarth y De i wella canlyniadau grwpiau agored i niwed.

Ym mhrif ddangosyddion perfformiad pob cyfnod, mae perfformiad disgyblion cymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella ers 2012. Serch hynny, ni fu hynny'n cyfateb i gyfradd wella eu cyfoedion ym mhob achos. Mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion cymwys i brydau ysgol am ddim a'u cyfoedion wedi lleihau. Serch hynny, dros yr un cyfnod, mae'r cynnydd yn y grŵp hwn yn llai cyson yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2, a Chyfnod Allweddol 4 o'i gymharu â disgyblion eraill.

Yn gyffredinol, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn yn y rhan fwyaf o feysydd. Mewn llawer o achosion mae'r gwahaniaeth mewn perfformiad yn gymharol fach, ond rhaid lleihau nifer o wahaniaethau sylweddol. Mae ymgynghorwyr her yn gweithio gydag ysgolion unigol i nodi strategaethau penodol i leihau'r bwlch hwn o ran y rhywiau.

**Amcan Cydraddoldeb 3: Gwneud dogfennau cyhoeddus yn haws i bobl eu darllen a'u deall**

O bryd i'w gilydd, rydym yn codi ymwybyddiaeth o ganllawiau iaith glir.

Rydym yn meddwl am sut y gallwn roi hyfforddiant ar iaith glir.

Byddwn yn edrych i mewn i ddysgu iaith glir. Rydym yn bwriadu cynnig hyn i bob aelod o staff pan fyddwn yn ei lansio. Byddwn yn ei gynnig i staff newydd pan fyddant yn ymuno â'r cyngor fel rhan o'u rhagarweiniad. Byddwn hefyd yn sicrhau bod pobl yn

ymwybodol o'r canllaw wrth wneud hyfforddiant arall megis ysgrifennu adroddiadau a chofnodion.

**Amcan Cydraddoldeb 4: Helpu staff i wybod mwy am gyfraith cydraddoldeb, a staff a'r cyhoedd i ddeall anghenion grwpiau a ddiogelir**

Rydym yn parhau i gynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth cydraddoldeb ac o bryd i'w gilydd hyfforddiant ar anghenion grwpiau penodol megis hyfforddiant ymwybyddiaeth o fod yn fyddar. Mae gennym fodiwlau hyfforddiant e-ddysgu. Mae'r rhain yn ymwneud ag ymwybyddiaeth o effaith ar gydraddoldeb, asesiadau effaith cydraddoldeb, ac ymwybyddiaeth o fod yn drawsryweddol.

Rydym yn cynnal hyfforddiant asesu effaith ar gydraddoldeb bob tair blynedd ac eleni cafodd hwn ei gynnal ar ddechrau 2016, nid ydym wedi cynnal rhaglen arall yn y cyfnod adrodd hwn.

Rydym yn parhau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd trwy:

- bwrdd yn y dderbynfa, byrddau electronig, cyfryngau cymdeithasol;
- gweithio gyda sefydliadau.

**Amcan Cydraddoldeb 5: Ceisio barn grwpiau a ddiogelir ar newidiadau arfaethedig i bolisi, cyllidebau a gwasanaethau.**

Mae gennym broses asesu effaith ar gydraddoldeb. Cafodd hyn ei adolygu a'i ail-lansio, gyda dolenni i ganllawiau, esiamplau, ac ymchwil i helpu swyddogion i gynnal ein hasesiadau effeithiol.

Mae gennym Dîm Cyfathrebu sy'n cynnig cyngor ar ymgysylltu â gwasanaethau. Mae'r Tîm Cyfathrebu yn cadw rhestr o sefydliadau y gallwn siarad â hwy am anghenion grwpiau a ddiogelir i helpu gyda'r broses hon. Mae hyn yn helpu gwasanaethau i ddod o hyd i safbwyntiau ac anghenion grwpiau a ddiogelir fel bod y rhain yn llunio polisïau, penderfyniadau a gwasanaethau.

**Amcan Cydraddoldeb 6: Annog pobl â nodweddion a ddiogelir i adrodd am droseddau casineb, aflonyddwch a gwahaniaethu**

Rydym wedi sefydlu ein Grŵp Cydlyniad Cymunedol. Mae ganddo ffocws newydd ar aelodaeth gymunedol. Rydym wedi sefydlu cysylltiadau gyda Gwirfoddolwyr Ieuenctid yr

Heddlu i hyrwyddo llais ieuenctid yng ngwaith y Grŵp. Mae hyn yn helpu i sicrhau y gallwn wirio tensiynau yn y Fro ac y gallwn ymateb yn effeithiol os byddant yn codi.

Fe wnaethon ni greu cynllun datblygu Grŵp Cydlyniad Cymunedol i ehangu aelodaeth. Roedden ni hefyd eisiau defnyddio platfformau cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein i greu deallusrwydd cymunedol.

Rydym yn cyflwyno adroddiadau chwarterol ar drosedd casineb trwy nodwedd a ddiogelir i'r Grŵp Cydlyniad Cymunedol. Rydym yn cynnal cyfarfodydd monitro tensiwn rheolaidd rhwng y Cydlynydd Cydlyniad Cymunedol a'r Swyddog Trosedd Casineb.

Mae'r Grŵp Cydlyniad Cymunedol wedi creu gwaith partneriaeth newydd ar draws y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol. Rydym yn rhoi cyflwyniadau ym mhob cyfarfod chwarterol ar wahanol wasanaethau a sefydliadau i gefnogi cyfnewid gwybodaeth.

Rhoddodd y Cydlynydd Cydlyniad Cymunedol weithdy data yn rhoi manylion o ran ystadegau ar nodweddion a ddiogelir yn y Fro yng nghyfarfod y Grŵp Cydlyniad Cymunedol ym mis Rhagfyr, gan godi ymwybyddiaeth o gymunedau 'cudd'.

Mae'r Swyddog Trosedd Casineb wedi cyflwyno sesiynau allgymorth mewn ysgolion a charchardai i hyrwyddo ymwybyddiaeth o drosedd casineb a sut i adrodd am ddigwyddiadau.

Mynychodd y Cydlynydd Cydlyniad Cymunedol, y Swyddog Trosedd Casineb a'r Swyddog Cyswllt Cymunedol weithdy yn y Barri ar Islamoffobia ym mis Tachwedd.

Mae Bro Morgannwg wedi ymuno â Bwrdd CONTEST (Gwrth-Derfysgaeth) Caerdydd i hyrwyddo dealltwriaeth swyddogion allweddol o densiynau cymunedol posibl a thueddiadau yn gysylltiedig ag eithafiaeth.

Bydd y Cydlynydd Cydlyniad Cymunedol yn gweithio'n agos â'r Rheolwyr Diogelwch Cymunedol i gynnwys PREVENT yn agenda diogelu'r Cyngor yn 2018.

**Atal Bwlio mewn Ysgolion**

Rydym yn gweithio gydag ysgolion i leihau bwlio gyda ffocws ar grwpiau agored i niwed sy'n fwy tebygol o gael eu bwlio. Rydym wedi cyflawni hyn drwy:

- fonitro achosion o fwlio mewn ysgolion;

- rhannu'r wybodaeth hon ag Ymgynghorwyr Her;
- monitro achosion o fwlio yn ôl nodweddion a ddiogelir;
- datblygu polisïau bwlio;
- cynnal ymweliadau i ysgolion o ganlyniad i ddadansoddi data a ddilynir gan ymweliadau adolygu os oes angen;
- darparu polisïau atal bwlio;
- awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau ar gyfer wythnos atal bwlio.

Hefyd:

- Derbyniodd 7 ysgol uwchradd y gwahoddiad i dderbyn cyflwyniad drama a ariannwyd gan y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys sesiwn holi ac ateb gyda sefyllfaoedd digidol. Roedd y ffocws ar fwlio llafar ac emosiynol gan mai dyma sy'n cael ei adrodd fwyaf.

- Rydym wedi mapio'r holl ddarpariaeth sydd ar gael i ddisgyblion sydd wedi cael eu bwlio. Mae hyn yn cynnwys ymyriadau a strategaethau awdurdod lleol a thrydydd sector.

- Mae cynrychiolydd o Stonewall wedi cyflwyno hyfforddiant trwy'r fforwm diogelu ac wedi gweithio â'r awdurdod lleol ar roi canllaw i ysgolion wrth ddelio â materion trawsryweddol.

- Fe wnaethom roi awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau i'w cynnal yn ystod Wythnos Atal Bwlio.

- Fe wnaethom ymweld ag ysgolion lle roedd lefelau uchel o fwlio. O ganlyniad i'r ymweliad hwn, cyflwynodd yr ysgolion hyn weithdrefnau newydd gan arddangos gostyngiad o ran nifer yr achosion a adroddwyd.

Canlyniadau:

- Mae nifer yr achosion o fwlio wedi gostwng 43%; mae nifer y disgyblion a fu'n gyfrifol wedi gostwng 8%; ac mae nifer y dioddefwyr wedi gostwng 23%. Mae'r rhain yn ostyngiadau sylweddol ers blwyddyn academaidd 2014-2015.

- Mae nifer yr achosion cysylltiedig ag anabledd wedi gostwng o 35 i 6.

- Mae ysgolion yn adrodd bod niferoedd yr achosion o fwlio llafar ac emosiynol wedi gostwng yn sylweddol. Mae nifer yr adroddiadau o achosion o fwlio homoffobig yn isel iawn. Mae niferoedd yr achosion o fwlio hiliol yn isel ac maen nhw hefyd wedi lleihau'r flwyddyn academaidd hon.

**Amcan Cydraddoldeb 7: Canfod ffyrdd newydd o gyrraedd dioddefwyr o gamdriniaeth a chodi ymwybyddiaeth o wasanaethau camdriniaeth ddomestig yn y gymuned.**

Rydym yn gweithio'n agos â Gwasanaethau Domestig Arbenigol a Chefnogi Pobl i sicrhau bod gan ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig fynediad i gymorth, cefnogaeth ac amddiffyniad. Mae hyn yn cynnwys lloches, tai cam dau a gwasgaredig.

Rydym hefyd yn atgyfeirio i wasanaethau arbenigol megis BAWSO, Project DYN, Rainbow Bridge a Live Fear Free.

Rydym yn trefnu hyfforddiant a diwrnodau a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth. Mae'r rhain yn cael eu hysbysebu'n eang ledled Bro Morgannwg.

Mae Atal y Fro yn hysbysebu eu gwasanaethau trwy'r cyfryngau cymdeithasol , y wasg, a digwyddiadau hyfforddiant ymwybyddiaeth. Mae'n gweithio gyda'r sector statudol a'r trydydd sector i sicrhau bod eu gwasanaethau yn cael eu hysbysebu i gymaint o bobl â phosibl gan gynnwys y Fro wledig.

Rydym yn cynnal ymgyrchoedd a sesiynau codi ymwybyddiaeth gydol y flwyddyn. Rydym yn targedu digwyddiadau penodol yn y calendr megis yr ymgyrch Rhuban Gwyn, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, 16 days of action, PRIDE.

Rydym yn gweithio ledled Caerdydd a'r Fro i sicrhau bod ymgyrchoedd a sesiynau codi ymwybyddiaeth yn parhau. Bydd y rhain yn rhai wyneb yn wyneb, ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, cyfryngau cymdeithasol, radio, teledu a'r wasg. Bydd gwybodaeth hefyd ar daflenni, llythyrau ac e-byst.

Yn ystod 2017, fe gynhaliom ddwy gynhadledd mewn perthynas â thrais domestig a chamdriniaeth, i ddeall beth sy'n gweithio'n dda. O ganlyniad i'r digwyddiadau hyn, rydym wedi datblygu hyfforddiant mewn perthynas â thrais domestig a chamddefnyddio sylweddau. Rydym yn y broses o recriwtio rhywun i edrych ar achosion domestig yn y Fro. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y bobl gywir yn cael mynediad i'r gwasanaethau a'r cymorth cywir ar yr adeg gywir. Bydd hyn yn cael ei arwain yn ôl anghenion.

Rydym yn adrodd yn chwarterol ac yn flynyddol i Lywodraeth Cymru ar ein cynllun darparu ac yn adrodd ar gynnydd o ran trais domestig a rhywiol. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys nodweddion a ddiogelir. Rydym hefyd yn adrodd i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Rydym yn gweithio â'r Cydlynydd Pobl Hŷn a Fforwm 50+ y Fro i gynyddu gwelededd a gwasanaethau ar draws y Fro Orllewinol. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i gynnal digwyddiadau yn y Fro Orllewinol. Yn ddiweddar, fe siaradon ni mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan gydlynwyr Gwarchod Cymdogaeth yn Llanilltud Fawr. Mae gan Atal y Fro berthynas dda gydag RAF Sain Tathan ac mae'n cynnal digwyddiadau codi ymwybyddiaeth yn y Gwersyll.

**Amcan Cydraddoldeb 8: Lleihau'r bwlch tâl a gwella cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer grwpiau a ddiogelir**

Mae gennym gynllun gweithlu i helpu i sicrhau bod cyflogeion y Cyngor yn adlewyrchu hynny yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys camau i leihau'r bwlch tâl o ran y rhywiau. Rydym yn edrych ar ddata i wirio cynnydd.

Mae'r bwlch tâl o ran y rhywiau wedi gostwng. Ar 1 Ebrill 2016, y bwlch tâl o ran y rhywiau oedd 8.88%. Ar 1 Ebrill 2017, y bwlch tâl o ran y rhywiau oedd 8.81%.

Rydym yn gweithio i ddenu mwy o bobl ifanc i weithio gyda ni gan nad yw'r gyfran o staff ifanc a gyflogwn yn cynrychioli'r gyfran o bobl ifanc yn ein cymuned. Rydym wedi bod yn defnyddio prentisiaethau i wneud hyn.

Rydym wedi cynnig ac yn parhau i gynnig nifer o brentisiaethau sylfaen i bobl ifanc 16 – 24 oed, ac mae gennym 20 o brentisiaid yn y Cyngor ar hyn o bryd. Cafodd prentisiaid o Ebrill 2016 i fis Mawrth 2017 eu cyflogi trwy asiantaeth, yn hytrach na'u cyflogi'n uniongyrchol. Roedd gennym 14 yn y cyfnod hwn, a phob un dan 24 oed.

Yn ein hadroddiadau cydraddoldeb blynyddol, rydym wedi adrodd ar ystod o wybodaeth cyflogaeth: tâl i ddynion a merched; grwpiau oedran gwahanol, ailbennu rhywedd, hunaniaeth genedlaethol, hil ac ethnigrwydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, cred grefyddol, statws priodasol a gallu o ran y Gymraeg.

## Materion eraill sy'n berthnasol i'r ddyletswydd gyffredinol a dyletswyddau penodol

Fe welwch yn Atodiad 4 bod gwasanaethau wedi casglu data a hyrwyddo cydraddoldeb mewn sawl ffordd.

### Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Rydym wedi cael system ar gyfer asesu effaith ein gwaith ar grwpiau a ddiogelir am sawl blwyddyn. Rydym yn ei hadolygu ac yn ei gwella o bryd i'w gilydd. Rydym yn cyhoeddi canlyniadau ein hasesiadau ar ein gwefan.

Ym mis Ionawr 2017, cyflwynom broses newydd ar gyfer cynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb. Ceir dolenni i ganllawiau, ymchwil a data. Mae'n caniatáu i swyddogion ddechrau'r broses ac yna mae'n rhaid iddynt gysylltu â'r Tîm Cydraddoldeb am gyngor. Gobeithiwn y bydd hyn yn gwella ansawdd yr asesiadau.

Rydym yn parhau i gefnogi rheolwyr i feddwl am eu gwaith yn y ffordd hon. Rydym yn cynnig hyfforddiant ar sut i gynnal asesiadau. Mae modiwl e-ddysgu i bobl ddysgu ar-lein sut i'w wneud. Gofynnwn iddynt ddangos eu proses o feddwl mewn cofnod ffurfiol y gallwn ei gyhoeddi.

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae wedi bod yn bwysig i ni feddwl am sut y gallai'r toriadau o ran y gyllideb effeithio ar ein gwasanaethau. Wrth i ni baratoi cyllidebau, rydym yn meddwl am sut y gallai newidiadau effeithio ar grwpiau a ddiogelir. Rydym hefyd

yn meddwl am sut y gallwn leihau effeithiau negyddol arnynt. Rydym yn cyhoeddi ar ein gwefan yr asesiad o ran sut mae'r gyllideb yn effeithio ar grwpiau a ddiogelir.

Yn fwy diweddar, rydym hefyd wedi gorfod meddwl am ddarparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol iawn. Mae hyn oherwydd ein bod ni'n gwybod y bydd llai o arian i'w wario ar wasanaethau bob blwyddyn, am yr ychydig flynyddoedd nesaf. Wrth i ni wneud hyn, rydym yn meddwl am sut y bydd hyn yn effeithio ar grwpiau a ddiogelir ac rydym yn siarad gyda hwy amdanynt.

Gallwch weld ein asesiadau effaith ar gydraddoldeb ar ein gwefan.

**Hyfforddiant**

Rydym yn parhau i ddarparu rhaglen o sesiynau hyfforddiant byr i sicrhau bod staff yn gwybod am y gyfraith cydraddoldeb newydd. Rydym yn parhau i gynnig modiwlau e-ddysgu. Mae un o'r rhain yn dweud wrth staff y pethau sylfaenol sydd angen iddynt wybod am gydraddoldeb. Mae un arall yn dweud wrth staff sut i asesu effaith eu gwaith ar grwpiau a ddiogelir (asesiadau effaith ar gydraddoldeb). Mae'r trydydd yn rhoi gwybodaeth i bobl am faterion trawsryweddol.

Gall pobl edrych ar y rhain ar y cyfrifiadur wrth eu desgiau. Gallant hefyd eu cyrchu o gartref. Gall hyn ei wneud yn haws i rai pobl wneud yr hyfforddiant. Gallwn fonitro pwy sydd wedi cwblhau'r math hwn o hyfforddiant.

Mae rhai aelodau o staff nad ydynt yn gallu mynychu'r sesiynau hyfforddi ac nid oes ganddynt fynediad i fodiwlau e-ddysgu. I'r aelodau hyn o staff, rydym yn cynnig llyfryn sy'n esbonio'r pethau allweddol sydd angen iddynt wybod.

Rydym hefyd yn cynnig mathau eraill o hyfforddiant o bryd i'w gilydd, fel hyfforddiant ymwybyddiaeth o fod yn fyddar, hyfforddiant ymwybyddiaeth o fod yn drawsryweddol, a hyfforddiant ymwybyddiaeth o fod yn berson lesbaidd, hoyw a deurywiol.

**Ymgyrch Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth 2016 – 2017**

Rydym yn parhau i weithio gyda'r ymgyrch Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth. Elusen ydyw sy'n gweithio gyda phobl ifanc i godi ymwybyddiaeth o hiliaeth a homoffobia. Mae'n defnyddio pêl-droedwyr a sêr chwaraeon eraill fel esiamplau i wneud hyn. Maen nhw'n cynnig gweithdai i bobl ifanc ynghylch hiliaeth ac yn cynnig sesiynau ffitrwydd difyr.

Yn 2016 - 2017, cafwyd **65** o weithdai mewn **3** lleoliad addysg, gan gynnwys:

- **23** ysgol gynradd;
- **8** ysgol uwchradd;
- **1** uned atgyfeirio disgyblion / ysgol arbennig.

Fe wnaethant gyfarfod â **2652** o blant a phobl ifanc. Ar ôl y gweithdai, dywedodd **57%** o bobl ifanc eu bod wedi newid y ffordd yr oeddent yn trin eraill. Dyma rai o'r sylwadau a wnaethant:

"Rwy'n fwy gofalus am yr hyn rwy'n ei ddweud."

"Rwy'n parchu pwy ydyn nhw ac yn meddwl am fy ngweithredoedd."

"Rwy'n parchu eu crefydd a lliw eu croen a phan rwy'n eu gweld yn cael eu camdrin rwy'n sefyll i fyny drostynt."

"Cyn i chi siarad neu feddwl rhywbeth am rywun, meddyliwch pam? Sut fydd hyn yn effeithio arnyn nhw?"

"Ni allwch bennu crefydd neu ddiwylliant rhywun yn ôl y ffordd maen nhw'n edrych."

"Faint y gall geiriau effeithio ar bobl."

"Meddwl cyn siarad."

"Stopiwch, medda fi."

Yn dilyn y gweithdy, roedd 29% o'r plant wedi gweld hiliaeth ac roedd pob un ohonyt wedi dweud wrth oedolyn.

Fe ofynnon ni i'r **71%** arall beth fydden nhw'n ei wneud pe baen nhw'n gweld hiliaeth. Dyma ddywedon nhw:

"Dweud wrth fy athro"

"Rhoi gwybod am y peth."

"Bydden i'n ffonio'r heddlu"

"Bydden i'n ceisio gwneud fy ngorau i'w stopio neu ddweud wrth rhywun"

"Bydden i'n dweud wrth rhywun"

Fe ofynnon ni i'r athrawon sut oedden nhw'n teimlo ar ôl y gweithdai:

- Dywedodd **50%** eu bod yn fwy cyfforddus i ddarparu gweithgareddau a gweithdai atal hiliaeth
  yn dilyn y gweithdai SRtRC.

- Roedd **100%** o athrawon yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y gweithdai yn annog trafodaeth gadarnhaol ynghylch hiliaeth rhwng disgyblion.

Mynychodd ysgolion y Fro ddigwyddiad gweithdy Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth. Cynhaliwyd y digwyddiad hwn yn Stadiwm Dinas Caerdydd. Daeth y digwyddiad i ben â chynhadledd y wasg gyda chwaraewyr proffesiynol presennol a blaenorol. Cafodd y bobl ifanc a ofynodd y cwestiynau gorau fagiau rhodd a thocynnau i'r gêm.

**Cydraddoldeb Hiliol yn Gyntaf**

# Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg
# 1 Ebrill 2016– 31 Mawrth 2017

Fe wnaethon ni ariannu Cydraddoldeb Hiliol yn Gyntaf i'n helpu ni gyda gwaith cydraddoldeb. Fe wnaeth ein helpu i:

- barhau i ddarparu grŵp ar gyfer pobl lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol;
- cyngor ar faterion gwahaniaethu; a
- threfnu cystadleuaeth calendr atal hiliaeth flynyddol i ysgolion gyda seremoni wobrwyo i ymgeiswyr llwyddiannus.

**Gwasanaeth Cyngor Atal Gwahaniaethu**

Rhwng Medi 2012 a Mawrth 2017, fe wnaethon ni ariannu Cyngor Dinasyddion i roi'r gwasanaeth hwn i ni. Roedd y gwasanaeth yn cefnogi pob un o'r grwpiau a ddiogelir. Roedd ar gael un diwrnod yr wythnos yn y swyddfa yn y Barri.

Roedd y gwasanaeth cyfrinachol yn cynnig:

- cyngor teg ac am ddim;
- gwaith achos yn cael ei drin gan weithwyr profiadol sydd wedi cael hyfforddiant ar wahaniaethu;
- gwasanaeth galw heibio ar foreau Iau;
- cyngor ar adegau eraill.

**Fforwm Adrodd a System Adrodd Sipsiwn a Theithwyr 2016 - 2017**

# Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2016– 31 Mawrth 2017

Am yr ychydig wythnosau diwethaf, rydym wedi cynnal Fforwm Sipsiwn a Theithwyr. Fe wnaethon ni barhau i gefnogi hyn. Roedd yn cynnwys pobl o wasanaethau sy'n gweithio gyda Sipsiwn a Theithwyr. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro;
- Diogelwch Cymunedol;
- Iechyd Amgylcheddol;
- Ystadau;
- Gwasanaethau Cyfreithiol;
- Gwasanaethau Cymorth Disgyblion;
- Uned Cymorth Lleiafrifoedd Heddlu De Cymru.

Fe wnaeth y grŵp sicrhau bod systemau mewn lle i gefnogi Sipsiwn a Theithwyr wrth iddynt gyrraedd yr ardal. Roedd system i adrodd newydd ddyfodiaid, asesu anghenion lles; a rhannu gwybodaeth.

Fe wnaethon ni fonitro ein system adrodd safleoedd. Pan wnaeth swyddogion ddarganfod bod yna safle Sipsiwn neu Deithwyr newydd, fe wnaethant roi gwybod i'n canolfan gyswllt yn y Fro. Fe wnaethon ni rannu'r wybodaeth hon gydag aelodau eraill y grŵp.

Gwnaeth ein Huned Amddiffyn Sifil gysylltu â theuluoedd Sipsiwn neu Deithwyr yn y lle cyntaf wrth iddynt gyrraedd yr ardal. Fe wnaethon nhw ddysgu am faterion fel anghenion lles a hyd yr arhosiad. Rhoddodd yr uned y wybodaeth hon i'n Canolfan Gyswllt i'w rhoi i aelodau'r fforwm. Pe bai angen i ni wneud asesiad lles llawnach, byddai rhywun o'n hadran dai wedi gwneud hyn.

Yn ystod 2016 – 17, fe wnaethon ni adolygu aelodaeth i sicrhau ein bod yn gwybod pa bobl i gysylltu â hwy ym mhob sefydliad. Roedd hyn yn ein galluogi i weithio'n effeithiol pan roedd materion yn codi.

# Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2016– 31 Mawrth 2017

**Cynllun Hyder Anabledd**

Rydym yn falch o fod yn aelod o'r cynllun hwn sy'n cydnabod cyflogwyr sy'n helpu ymgeiswyr anabl i mewn i waith ac sy'n cefnogi cyflogeion pe baen nhw'n dioddef iechyd gwael yn ystod eu bywyd gwaith.

Dan y cynllun, rydym yn helpu pobl ag anableddau mewn sawl ffordd.

- **Cyfweliadau hygyrch**

  Rydym yn cael gwared ar rwystrau drwy gynnig pethau fel: parcio, arwyddwyr; Braille; mynediad i gadeiriau olwyn; system ddolen; neu ddehonglwr.

- **Lleoliad cyfweliad**

  Rydym yn gallu trefnu ymweliad i leoliad y cyfweliad cyn y cyfweliad. Yna gallwn wneud addasiadau cyn y cyfweliad os bydd pobl angen hynny.

- **Datblygu galluoedd**

  Rydym yn sicrhau bod cyfle i bobl ddatblygu a defnyddio eu galluoedd. Rydym yn gwneud hyn trwy ein system Adolygiad Datblygiad Personol.

- **Cefnogi cyflogeion**

  Rydym yn cefnogi cyflogeion i aros mewn cyflogaeth pe baent yn cael anabledd. Rydym yn cynnig gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol a Gwasanaeth Cwnsela.

- **Codi ymwybyddiaeth**

  Rydym yn trefnu i helpu staff i wybod mwy am anabledd. Rydym hefyd yn hysbysebu ein hymrwymiad ar ein Staffnet ac ar bosteri yn yr adeilad.

- **Adolygu'r cynllun**

  Rydym yn gwirio'n rheolaidd sut mae'r cynllun yn cael ei redeg ac yn cynllunio gwelliannau. Fe wnaethon ni gwrdd yn ddiweddar â'r tîm o'r Adran Gwaith a Phensiynau ac rydym yn gobeithio peilota cynllun profiad gwaith i helpu ceiswyr swyddi anabl gael profiad.

Rydyn ni ar y lefel 'Cyflogwr Anabledd' ar hyn o bryd ac yn gobeithio cynyddu i 'Arweinydd Anabledd' yn y dyfodol.

**Cyngor Awtistiaeth Oedolion (2016 - 2017)**

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r Tîm Gwasanaeth Cyngor Awtistiaeth Oedolion wedi casglu gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu cynnig gan awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaeth allanol. Yna gallwn atgyfeirio cleientiaid i'r gwasanaethau hyn a'u cefnogi i gyrchu'r gwasanaethau hyn os oes rhwystrau.

Drwy wneud y gwaith hwn, ein nod yw helpu cleientiaid i gyrchu cymorth neu gyfleoedd sydd ar gael iddynt, gyda neu heb ddiagnosis. Heb y cymorth lefel isel hwn, efallai na fyddent wedi cael gwybod am y gwasanaeth neu'n teimlo nad ydynt yn gallu manteisio arno.

Mae'r gwaith hwn yn ein helpu i ddarparu gwasanaethau ataliol sy'n diwallu gofynion Deddf Gwasanaeth Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.

Mae'r gwasanaeth Cyngor Awtsitiaeth Oedolion yn cynnig ymyrraeth targedig byr dymor. Mae hyn yn hyrwyddo annibyniaeth ac ymreolaeth oedolion â'r syndrom Awtistiaeth ac Asperger mewn sawl ffordd. Mae'n:

- cynnig pwynt cyswllt clir ar gyfer gwybodaeth a chyngor;

- atgyfeirio i gymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol os ydyn nhw'n gymwys;

- atgyfeirio i wasanaethau eraill yn eu cymunedau os nad ydynt yn gymwys am gymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol;

- annog oedolion i ymuno â grwpiau cymdeithasol a chymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau lleol i leihau'r risg o argyfwng a phroblemau iechyd meddwl.

Mae ein cymorth yn waith achos byr dymor. Mae hyn oherwydd ein bod yn annog pobl i fod yn annibynnol ac nid ydym eisiau iddynt ddod yn ddibynnol ar y tîm.

Rydym yn cynnig cymorth mewn ffyrdd eraill hefyd.

- Rydym yn cynnal gweithdai hyfforddi i bobl i ddatblygu sgiliau cymdeithasol.
- Rydym yn helpu i gynnal grŵp trafod i oedolion.
- Rydym wedi sefydlu grŵp i gyplau lle mae un neu ddau o'r partneriaid ar y sbectrwm awtistig.
- Rydym yn cefnogi oedolion cyn, yn ystod ac ar ôl y broses ddiagnostig.

**Fforwm Strategaeth 50+ y Fro 2016 - 2017**

Mae'r Fforwm yn ymgyrchu dros anghenion pobl 50+ ym Mro Morgannwg. Mae ei haelodau mewn cyswllt â nifer o weithgorau lleol a chenedlaethol. Mae gan y Fforwm grŵp etholedig o aelodau a elwir y weithrediaeth. Nhw sy'n penderfynu sut mae'r Fforwm yn gweithio.

Mae cyfarfodydd y weithrediaeth bellach ar agor i bob aelod o'r fforwm eu mynychu. Drwy fynychu, gall aelodau elwa o amrywiaeth o gyflwyniadau diddorol ar y gwasanaethau sydd ar gael. Gall aelodau hefyd gael y cyfle i fynegi eu barn ar ddatblygiadau a chynllunio gwasanaethau.

Mae pum grŵp gorchwyl yn gweithio i sicrhau bod pobl dros bum deg yn gallu manteisio ar iechyd da, trafnidiaeth, tai a gofal. Maen nhw'n ceisio sicrhau y gall pobl ddysgu sgiliau

newydd a gwneud pethau difyr sy'n addas i'w hanghenion. Mae'r Fforwm yn siarad â'r Cyngor a Byrddau Iechyd am y gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Mae'r Fforwm hefyd yn cynnal digwyddiadau bob blwyddyn.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r Fforwm. Mae'n rhoi cymorth swyddog iddo o'r enw'r Cydlynydd Pobl Hŷn. Mae'r Cydlynydd Pobl Hŷn yn cynnig cyngor a chymorth rheolaidd i'r Fforwm, gan gynnwys gwaith ysgrifenedig.

Mae'r Cyngor yn rhoi grant bach i'r Fforwm ar gyfer treuliau aelodau ac i dalu am weithgareddau a digwyddiadau. Mae'r Fforwm yn defnyddio'r grant ar gyfer:

- cylchgrawn sydd â gwybodaeth ddefnyddiol i bobl hŷn;
- gwefan;
- prynu offer fel argraffwyr a llechi ar gyfer busnes fforwm ac addysgu pobl hŷn sut i ddefnyddio cyfrifiaduron, llechi a ffonau clyfar; a
- threuliau allan o boced.

O bryd i'w gilydd, mae'r Cyngor eisiau gwybod beth mae pobl yn meddwl am ei gynlluniau. Ar yr adegau hynny, mae'n cynllunio gwahanol weithgareddau i ddysgu beth mae pobl ei angen. Mae hyn yn cynnwys siarad â'r Fforwm.

**Digwyddiadau Fforwm**

Mae Age Cymru yn elusen i bobl hŷn. Sefydlodd ŵyl celfyddydau cenedlaethol flynyddol o'r enw Gwanwyn. . Fe'i cynhelir ym mis Mai bob blwyddyn i bobl hŷn fwynhau'r celfyddydau.

Cynhaliodd y Fforwm ei ddigwyddiad ei hun ar 15 Mai 2016 o'r enw 'Gŵyl Celfyddydau Gwanwyn y Fro 2017'. Cynhaliodd y digwyddiad yn Yr Hen Dŷ Ysgol Sili. Roedd gweithgareddau difyr yn Yr Hen Ysgol gan gynnwys canu, gweithdai gitâr, barddoniaeth, crefft nodwydd, gwneud gemwaith, caligraffi a darllen a rennir. Darllen a rennir yw pan fo grŵp o breswylwyr yn dod ynghyd ac yn cymryd tro i ddarllen darnau byr o lyfrau a cherddi. Yna mae pawb yn trafod yr hyn a ddarllenwyd ac yn dweud beth oedden nhw'n feddwl am y darn. Gall

y rheiny nad ydynt yn gallu darllen ymuno drwy wrando a gwneud arsylwadau ar y darn ysgrifenedig.

Roedd hyfforddiant hefyd ar ddefnyddio gluniaduron, llechi a ffonau clyfar. Mae hyn yn helpu amrywiaeth ehangach o bobl i ddefnyddio'r math hwn o dechnoleg ac i wneud hynny'n ddiogel.

Ym Mehefin 2016, cynhaliodd y Fforwm ddigwyddiad ar gyfer Diwrnod Cam-drin yr Henoed yn un o gartrefi lloches y Fro yn y Barri. Roedd yn dweud wrth bobl am sefydliadau sy'n gweithio i gadw pobl yn ddiogel yn y gymuned. Roedd hyn yn cynnwys gwasanaeth camdriniaeth ddomestig (Atal- Y- Fro); Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu; a'r Gwasanaeth Tân. Roedd canllawiau hefyd ar ddiogelwch yn y stryd ac yn y cartref, a'r risgiau gan fasnachwyr twyll a throsedd ar-lein.

Ym mis Medi 2016, roedd digwyddiad i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn. Roedd sioe ffasiwn a dawns te. Roedd pobl yn gallu cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau difyr. Roedd mwy na deg ar hugain o stondinau lle roedd pobl yn gallu cael gwybodaeth a chyngor.

**Cyhoeddusrwydd**

Dwywaith y flwyddyn, mae'r Fforwm yn cyhoeddi cylchgrawn o'r enw 'The Herald'. Mae'n dweud wrth bobl am waith y Fforwm a phethau o ddiddodreb i bobl dros 50 oed. Mae hefyd eitemau ar wasanaethau a gweithgareddau hamdden.

Mae gan y Fforwm hefyd ei wefan ei hun. Mae'r wefan hon yn rhoi mynediad i nifer o safleoedd cyfryngau cymdeithasol. https://www.vale50plus.org/

**Cefnogi projectau eraill**

Mae aelodau o'r Fforwm wedi hyfforddi i fod yn 'hyrwyddwyr digidol'. Mae hyn yn golygu eu bod yn:

- addysgu pobl am ddiogelwch ar-lein;
- sut i ddefnyddio gliniaduron, llechi a ffonau clyfar, gan gynnwys e-bost a'r rhyngrwyd.

Mae rhai aelodau o'r Fforwm wedi hyfforddi i fod yn Hyrwyddwyr Dementia-Gyfeillgar. Maen nhw'n gwirfoddoli i wneud hyn. Maen nhw'n annog eraill i helpu pobl â dementia i fyw yn y gymuned. Maen nhw'n rhoi gwybodaeth am beth yw dementia, sut beth yw cael dementia, a'r hyn y gallant ei wneud i helpu.

Mae dau aelod o'r Fforwm wedi bod ar gwrs LIFT Age Cymru. LIFT yw enw rhaglen gweithgareddau. Ei nod yw cael pobl hŷn i fod yn actif yn eu cymuned leol. Gall dau aelod o'r Fforwm bellach gynnig sesiynau ymarfer corff wythnosol. Gall ystod o grwpiau cymunedol fynychu, gan gynnwys pobl â dementia. Mae un o'r aelodau Fforwm hyn wedi creu pecyn cymorth i helpu pobl i osgoi disgyn. Mae'n cynnal sesiynau ar atal disgyn i grwpiau ar hyd a lled y Fro. Mae'r aelod hwn hefyd wedi cymhwyso i gynnig sesiynau Tai Chi Age Cymru i bobl hŷn.

Mae dau aelod o'r Fforwm wedi hyfforddi i fod yn ymgynghorwyr ar gyfer Canolfan Wybodaeth Ysbyty Llandochau. Mae aelodau'r Fforwm sydd ar y grŵp gweithredol wedi cael hyfforddiant i fod yn ymgynghorwyr iechyd a lles. Maen nhw'n gweithio 'i sicrhau bod pob cyswllt yn cyfrif' (MECC). Maen nhw'n hyrwyddo byw'n iach, gwasanaethau sgrinio a brechu, ac hefyd yn gweithio fel mentoriaid ysgol uwchradd.

Gallwch ymuno â'r Fforwm os ydych dros bum deg ac yn byw, gweithio neu'n gwirfoddoli ym Mro Morgannwg. Os hoffech ymuno, cysylltwch â:

John Porter,
Cydlynydd Strategaeth Pobl Hŷn
Cyngor Bro Morgannwg.
Ffôn: 01446 709779
E-bost: jporter@valeofglamorgan.gov.uk

**Cymunedau Dementia-Gyfeillgar**

Mae’r Barri yn gweithio i ddod yn gymuned dementia-gyfeillgar. Mae’n gwneud hyn i helpu pobl â dementia a’u gofalwyr fyw’n hapus yn y gymuned.

Mae grŵp o weithwyr a gwirfoddolwyr yn helpu pobl i ddeall dementia’n well. Maen nhw eisiau i bobl allu rhoi help syml i bobl â dementia os oes ei angen arnynt.

Beth yw help syml? Gall olygu:

- bod yn amyneddgar, cymwynasgar a charedig os bydd rhywun wedi drysu wrth le talu ac yn creu ciw;
- gofyn i rywun sydd wedi drysu os oes angen rhywfaint o help arno; neu
- gysylltu â’r heddlu os yw rhywun ar goll.

Rydym yn gofyn i asiantaethau, gwasanaethau a busnesau ddod yn llefydd dementia-gyfeillgar. Rydym wedi dechrau gweithio yn y Barri. Mae llefydd eraill a hoffai ddod yn llefydd dementia-gyfeillgar yn cynnwys Y Bont-faen, Dinas Powys a Phenarth.

Gallwch ddod yn lle dementia-gyfeillgar drwy fynychu hyfforddiant am ddim sy’n para dim mwy nag awr. Gallwch hefyd ddod yn hyrwyddwr dementia a dysgu sut i hyfforddi cyfeillion newydd mewn hyfforddiant diwrnod am ddim.

Os dewch yn gyfaill neu hyrwyddwr byddwch yn cael bathodyn i ddangos hyn. Yn fwy na hyn, cewch y pleser o helpu eraill.

Os ydych yn rhedeg busnes, asiantaeth, neu weithgaredd grŵp, gallech weithio i ddod yn lle dementia-gyfeillgar. Byddech chi’n gwneud hyn drwy ddilyn rhestr wirio syml. Byddech chi’n cael tystysgrif a sticer ffenestr i ddangos hyn.

Os hoffech helpu, cysylltwch â:

John Porter

Cydlynydd Strategaeth Pobl Hŷn

Cyngor Bro Morgannwg

Ffôn: 01446 709779

E-bost: jporter@valeofglamorgan.gov.uk.

**Rhwydwaith Oedolion sy'n Dysgu y Fro**

Mae gwasanaethau hyfforddiant ac addysg i bobl yn y Fro yn perthyn i'r rhwydwaith hwn. Bob blwyddyn, mae digwyddiad sy'n cynnig y cyfle i bobl roi cynnig ar lawer o weithgareddau difyr. Mae'r rhwydwaith yn cynnal digwyddiad i ddysgwyr a hyfforddwyr o'r enw y Gwobrau Ysbrydoli. Fel rhan o'r gwobrau, gall pobl gynnig enwau dysgwyr neu hyfforddwyr da. Yna gall y dysgwyr a'r hyfforddwyr hyn gael tystysgrif teilyngdod. Mae gwobrau ychwanegol hefyd ar gyfer teilyngdod arbennig.

Os ydych yn gwybod am ddysgwr neu hyfforddwr yr ydych chi'n meddwl sy'n haeddu gwobr, rhowch wybod i ni. Cysylltwch â:

Debbie Lewis - Swyddog Datblygu Addysg Oedolion
E-bost: DJLewis@valeofglamorgan.gov.uk
Ffôn: 01446 733762.

Am wybodaeth ar ddysgu oedolion yn y Fro 2017 – 2018 defnyddiwch y ddolen isod:

Dysgu Oedolion yn y Gymuned

**Datblygu'r Celfyddydau**

Rydym yn sicrhau bod ein holl waith celfyddydau yn hygyrch ac yn hyrwyddo cydraddoldeb. Mae gennym amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau celfyddydau fel bod amrywiaeth o bobl yn gallu cymryd rhan. Dyma rai esiamplau o hyn.

**Arddangosfa Agored yr Oriel Celf Ganolog**

Dathlodd yr Oriel Celf Ganolog ei phen-blwydd yn ddeg oed ym mis Tachwedd. Cynhaliom arddangosfa o'r enw **'10'**. Dangosom dros 200 o wahanol fathau o waith gan 91 o artistiaid. Derbyniom gyflwyniadau gan bobl o bob oedran, gallu a chefndir, gan alluogi unrhyw un â diddordeb mewn creu gwaith celf i arddangos ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol yn y maes celfyddydau. Roedd y gweithwyr proffesiynol hyn yn brofiadol iawn ac yn adnabyddus yn eu maes celfyddydau. Roedd yr arddangosfa yn croesawu gwaith gan bobl â phroblemau iechyd meddwl neu ryw penodol, pobl hŷn a phobl ifanc greadigol. Roedd yn arddangosfa lwyddiannus iawn, yn denu ymwelwyr o bell.

**Arddangosfa Diwrnod Cofio'r Holocost – Sut All Bywyd Fynd yn ei Flaen!**

Ym Mhrydain, rydym wedi cynnal Ddiwrnod Cofio'r Holocost ar 27 Ionawr ers 2001. Rydym wedi bod yn coffau'r digwyddiad hwn yn y Fro ers 2008. Mae'r Holocost a'r hil-laddiadau a ddilynodd yn parhau i godi cwestiynau anodd. Drwy groesawu thema Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocost gofynnwn **Sut All Bywyd Fynd yn ei Flaen!** Gofynnom i ymwelwyr feddwl am beth sy'n digwydd ar ôl digwyddiadau o'r fath a beth sydd angen i ni ei wneud heddiw i osgoi ailadrodd a dysgu o erchyllterau blaenorol. Dangosodd yr Oriel Gelf Ganolog ddyfyniadau gan y rheiny oedd wedi cymryd rhan mewn arddangosfeydd blaenorol ar yr Holocost. Roedd y dyfyniadau hyn wedi dod o wahanol ddiwylliannau ac yn eu hieithoedd brodorol gan gynnwys Cymraeg, Saesneg, Ffrangeg, Pwyleg a Romani. Roedd eraill wedi codi cwestiynau a gwneud i'r gynulleidfa feddwl am orffennol, presennol a dyfodol dynoliaeth, sut 'mae bywyd yn mynd yn ei flaen' er gwaetha effaith yr heriau personol ac yn y byd o'r gorffennol a'r presennol.

**Arddangosfa Cymdeithas Gelfyddydau'r Menywod**

Mae pobl bedwar ban byd yn dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod bob blwyddyn ar 8 Mawrth ers 1911. Mae'r arddangosfa yn galluogi merched ar bob cam o greadigrwydd, p'un ai fel diddordeb neu'n broffesiynol, i ddangos eu gwaith mewn oriel broffesiynol ac i ddathlu'r achlysur pwysig hwn. Mewn partneriaeth â Chymdeithas Gelfyddydau'r

Menywod, rydym yn dod ag artistiaid benywaidd o bob rhan o Gymru at ei gilydd i fynd i'r afael ag unigedd, ymdrin ag amrywiaeth a chydraddoldeb a hyrwyddo artistiaid benywaidd a'u cyflawniadau ar gyfer yr achlysur hwn.

**Coleg Caerdydd a'r Fro - Sioe Diwedd Blwyddyn**

Cynhaliom ddigwyddiad i ddangos gwaith celf pobl ifanc sy'n astudio yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro. Roedd casgliad arbennig o waith celf a dylunio. Roedd yn dangos eu heriau a'u datblygiad yn ystod eu cyfnod yn astudio.

Mae'r arddangosfa yn galluogi artistiaid newydd ifanc i ddangos eu gwaith mewn man proffesiynol. O bob cefndir mae hefyd yn rhoi cyfle iddynt ddatblygu'n bersonol ac yn broffesiynol a denu gwerthiannau a chyfleoedd ar gyfer arddangosfeydd yn y dyfodol.

**Gwasanaethau Hamdden 2016 – 2017**

Rydym yn cynnig nifer o gynlluniau trwy ein tîm Datblygu Chwaraeon a Chwarae.

**Chwarae**

**Clwb Gwyliau Teuluoedd yn Gyntaf**

Yn ystod y gwyliau ysgol, rydym yn cynnig nifer o brojectau chwarae i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'r rhain yn cynnwys y Clwb Gwyliau Teuluoedd yn Gyntaf, sy'n rhaglen a gynhelir ar gyfer plant a phobl ifanc ag anabledd, anghenion cymhleth neu ymddygiad heriol. Grant Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru yw'r prif ffynhonnell gyllid ar gyfer y project hwn a gynhelir yn Ysgol Y Deri. Mae'r plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu'r Clwb Gwyliau rhwng 4 a 19 oed.

Gallai fod angen nifer o wasanaethau arbenigol gan gynnwys cymorth un i un, gofal personol, nyrs i weinyddu meddyginiaeth, trafnidiaeth ac offer arbenigol. Lle bo'n bosibl, bydd y Tîm Chwarae yn cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i gyrchu'r cymorth priodol i sicrhau ein bod yn diwallu eu hanghenion unigol tra'n mynychu'r project. I gyd gyda'i gilydd, defnyddiodd plant a phobl ifanc hwn 1593 gwaith.

**Cynlluniau chwarae a Cheidwaid Chwarae**

Yn ystod y gwyliau haf, rydym yn cynnal Cynlluniau Chwarae a Cheidwaid Chwarae mewn cymunedau lleol mewn canolfannau cymunedol, neuaddau eglwys, neuaddau chwaraeon, ysgolion, parciau a mannau agored. Rydym yn cynnal y Cynlluniau Chwarae a'r Ceidwaid Chwarae ar sail mynediad agored i blant a phobl ifanc rhwng 5 a 14 oed. I gynnal y Cynlluniau Chwarae a Cheidwaid Chwarae, rydym yn defnyddio cyllid gan Gynghorau Tref a Chymuned, Tai Unedig Cymru, cyllid adran 106 a chyllid y Cyngor. Darperir y project Ceidwaid Chwarae mewn partneriaeth â'r Adran Parciau i gynyddu mynediad i amryw barciau ar draws y Fro gan blant a phobl ifanc.

**Digwyddiadau Arbennig a Diwrnodau Hwyl i'r Teulu**

Mae'r tîm chwarae yn cefnogi nifer o bartneriaid a sefydliadau i ddarparu digwyddiadau arbennig a diwrnodau hwyl i'r teulu ar draws y Fro. Mae'r rhain yn cynnwys Sioe Bro Morgannwg, Eats Beats and Treats, Kids Day Out, y Clwb Rotari, a'r Barry Weekender ochr yn ochr â Thîm Digwyddiadau'r Fro, yn ogystal â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, y Tîm Maethu a Mabwysiadu, Cymunedau yn Gyntaf, Partneriaeth y Fro Ddiogelach a chymunedau lleol.

**Datblygu Chwaraeon**

Mae'r Tîm Datblygu Chwaraeon yn cynnal nifer o raglenni cynhwysol sy'n targedu grwpiau o bobl â nodweddion targedig yn ogystal â grwpiau o bobl lle mae tystiolaeth o gyfraddau cyfranogiad isel. Rydym yn falch o'r amgylchedd deg a ddarperir trwy nifer o bartneriaethau a chydweithio. Dyma wybodaeth bellach am bob project.

**Cynllun Chwaraeon y Ddraig**

Nod Chwaraeon y Ddraig yw gwella lefelau gallu plant cynradd mewn chwaraeon. Mae hyn yn cynnwys cydbwysedd, cydsymud, ystwythder ac ymwybyddiaeth ofodol yn ogystal â chynyddu nifer y plant cynradd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgareddau corfforol. Mae'r cynllun yn hyrwyddo chwaraeon a gweithgareddau corfforol ar ôl ysgol lle gall disgyblion fynychu sesiwn chwaraeon difyr. Yna caiff y

clybiau ar ôl ysgol hyn eu cysylltu â chyfleoedd cymunedol lleol er mwyn i ddisgyblion gymryd rhan y tu allan i oriau ysgol.

Mae’r Cynllun wedi’i greu i gynnwys disgyblion o bob gallu i gymryd rhan yn y gweithgareddau; mae hyn yn bosibl oherwydd gwybodaeth y Tîm Datblygu Chwaraeon.

Mae bob ysgol yn y Fro yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn Gweithgareddau Chwaraeon y Ddraig gyda chymorth y Tîm Datblygu Chwaraeon. Mae hyn yn cynnwys ysgolion Anghenion Addysgol Arbennig neu sesiynau penodol i blant ag anghenion addysgol arbennig.

Mae yna galendr gŵyl chwaraeon ysgolion cynradd sy’n cael ei gynnal ochr yn ochr â’r Rhaglen Chwaraeon y Ddraig lle rydym yn gwadd ysgolion i ddod â thimau i gystadlu mewn twrnameintiau neu wyliau di-gystadleuol. Mewn gwyliau penodol, ein nod yw cynnwys grwpiau anweithredol neu grwpiau o bobl nad ydynt fel arfer yn cael y cyfle i gynrychioli eu hysgol. Isod mae rhestr o rai o’r cyfleoedd a gafodd eu cynnal yn y Fro y llynedd.

- Gŵyl Pêl-droed Ysgolion Cynradd y Merched
- Pencampwriaethau Traws Gwlad
- Gŵyl Hoci Ysgolion Cynradd
- Gŵyl Pêl-rwyd Ysgolion Cynradd y Fro
- Gŵyl Plant Quad y Fro (Athletau)
- Gwyliau Aml-sgil Blwyddyn 3 a 4
- Gwyliau Aml-sgil Blwyddyn 5 a 6

**Cynllun ‘5 x 60'**

Mae’r Cynllun ‘5 x 60’ ar gyfer disgyblion uwchradd. Mae’n cynnig cyfleoedd chwaraeon a gweithgareddau corfforol yn ystod amseroedd cinio ac ar ôl ysgol. Nod y cynllun yw cynyddu cyfraddau cyfranogiad i ddisgyblion sy’n anactif neu’n anodd eu cyrraedd.

Rydym yn cynnig ystod eang o weithgareddau ym mhob ysgol uwchradd ledled y Fro. Rydym yn dewis gweithgareddau y mae nifer o blant wedi eu mynychu yn y gorffennol.

Rydym yn ymgynghori gyda disgyblion i ganfod pa weithgareddau maen nhw eisiau i ni eu cynnal.

Bydd gan bob ysgol uwchradd yn y Fro sesiynau sy'n targedu'n benodol un neu fwy o'r grwpiau canlynol: Merched, Anabledd, grwpiau blwyddyn penodol ac ati.

Yn ogystal â sesiynau penodol, mae'r cynllun '5 x 60' yn y Fro yn ymfalchïo mewn creu amgylcheddau cynhwysol lle gall unrhyw un fynychu, mae hyn yn cynnwys merched, disgyblion anabl a disgyblion o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig. Maen nhw'n teimlo'n rhydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol oherwydd eu bod yn gweithio gyda'r swyddog '5 x 60' yn yr ysgol honno.

Mae'r Cynllun '5 x 60' hefyd yn cynnig ystod o wyliau a chyfleoedd cystadleuol sy'n cynnwys Pêl-droed i Ferched, Rygbi i Ferched, Osgoi'r Bêl, Badminton a llawer mwy.

**Arweinyddiaeth**

**Y Cynllun Cenhadon Ifanc**

I fynd ochr yn ochr â'r Cynllun Chwaraeon y Ddraig a'r Cynllun '5 x 60', mae'r Tîm Datblygu Chwaraeon wedi creu rhaglen arweinyddiaeth gref i bobl ym Mro Morgannwg.

Roedden ni'n cydnabod y gallai ysgolion cynradd ac uwchradd gymryd cyfrifoldeb o ran llunio sut mae chwaraeon a gweithgareddau corfforol yn edrych yn eu hysgolion. Trwy'r darganfyddiadau hyn, mae'r Cynllun Cenhadon Ifanc wedi ffynnu.

Mae Cenhadon Ifanc yn ceisio:

- cynyddu cyfranogiad a ffordd o fyw iach;
- hyrwyddo gwerthoedd cadarnhaol chwaraeon;
- bod yn gennad, esiampl a llais pobl ifanc ar gyfer Gweithgareddau Corfforol a chwaraeon ysgol.

Mewn ysgolion cynradd, rydym wedi nodi Cenhadon Ifanc Efydd a'u helpu i ddatblygu sgiliau priodol i wneud y swydd. Rhaid iddynt ddiwallu safonau erbyn diwedd y flwyddyn ysgol. Mae hyn yn cynnwys dewisiadau a fydd yn gwella lefelau gweithgareddau corfforol yn yr ysgol. Gall y Cenhadon weithredu fel llais disgyblion fel bod yr ysgol yn gwrando ar eu syniadau ac yn gweithredu arnynt.

Gall disgyblion uwchradd ymgeisio i fod yn Genhadon Arian (Bblwyddyn 9) a Chenhadon Aur (Blwyddyn 10 a hŷn). Mae ganddynt safonau mwy cymhleth i'w diwallu. Maent hefyd yn cymryd mwy o gyfrifoldeb.

Mae'r safonau ar gyfer holl lefelau Cenhadon Ifanc yn cynnwys camau ar sut y gall yr ysgol ddod yn fwy cynhwysol. Mae'r safonau'n targedu grwpiau penodol ac yn rhoi mwy o gyfleoedd iddynt.

Mae'r Cynllun Cenhadon Ifanc yn ymfalchïo ar fod yn gwbl gynhwysol ac yn cynnig y cyfle i'r holl ddisgyblion ymgeisio ar gyfer y cynllun. Gall bob ysgol enwebu un bachgen ac un merch i hyrwyddo cydraddoldeb. Mae nifer o ddisgyblion du neu leiafrifoedd ethnig wedi bod yn llwyddiannus o ran cynrychioli eu hysgol fel Cennad Ifanc.

**Y Cynllun Hyfforddwyr y Dyfodol**

Mae 'Hyfforddwyr y Dyfodol' yn rhan o raglen etifeddiaeth Olympaidd Bro Morgannwg i helpu i ysbrydoli cenhedlaeth o gyfranogwyr a hyfforddwyr.

Ar agor i bobl ifanc rhwng 16 a 19 ym Mro Morgannwg, nod y rhaglen yw cynnig cyflwyniad i hyfforddi a gwirfoddoli mewn chwaraeon, dawns a gweithgareddau corfforol eraill. Mae'n rhoi hyfforddiant a phrofiad uniongyrchol o hyfforddi mewn ysgolion ac yn y gymuned.

Mae'r Cynllun wedi cael ei gynnal am nifer o flynyddoedd ac mae nifer o hyfforddwyr â nodweddion a ddiogelir wedi cwblhau'r cynllun.

**Cyrsiau Arweinwyr**

Mae Tîm Datblygu Chwaraeon y Fro yn cynnig ystod o gyrsiau arweinyddiaeth i hyfforddwyr posibl. Gall y rhain gael eu haddasu i ddiwallu anghenion dysgwyr. Mae nifer o bobl wedi mynychu'r cyrsiau hyn dros y flwyddyn ddiwethaf, gydag amrywiaeth eang o ddysgwyr yn mynychu.

**Chwaraeon Anabledd**

# Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2016– 31 Mawrth 2017

Yn 2015, cyflwynodd Adran Datblygu Chwaraeon a Chwarae Bro Morgannwg wybodaeth manwl i Insport. Roedd yn arddangos ymrwymiad i gynhwysiad, yn cynnwys egwyddorion cynhwysol o ran cynllunio, darpariaeth a pholisi. O ganlyniad, derbyniom wobr safon Efydd Datblygu Insport. Rhaglen Genedlaethol yw Insport ar gyfer Adrannau Datblygu Chwaraeon ym mhob awdurdod lleol.

Mae'r swydd Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd Cymru yn rôl rhan amser. Rydym yn derbyn cyllid grant i gefnogi'r rôl hon. Nod y rôl yw gweithio gyda nifer o bartneriaid a sefydliadau i gynyddu nifer y bobl anabl sy'n cymryd rhan mewn Chwaraeon a Gweithgareddau Corfforol. Mae nifer o bartneriaid a sefydliadau yn gweithio gyda Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys ysgolion a chlybiau cymunedol. Gall Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd Cymru gynnig cyngor ar ffyrdd o fod yn gynhwysol. Gall y swyddog hefyd helpu pobl i ddatblygu sgiliau i arwain gweithgareddau chwaraeon anabledd.

Rydym wedi cynnal nifer o gyrsiau Ymwybyddiaeth o fod yn Anabl. Mae'r rhain yn amrywio o Hyfforddiant Cynhwysiant Anabledd, Plant Actif i Bawb (staff ysgol) a Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth i Arweinwyr Chwaraeon.

Mae 50 o wahanol fathau o glybiau a grwpiau chwaraeon sy'n cynnig cyfleoedd chwaraeon anabledd penodol neu gynhwysol ym Mro Morgannwg. Mae nifer o'r clybiau hyn wedi cyflawni'r Achrediad Clybiau Insport:

- Mae 1 clwb wedi cyflawni'r Safon Arian
- Mae 6 chlwb wedi cyflawni'r Safon Efydd
- Mae 7 clwb wedi cyflawni'r Safon Rhuban

Rydym yn cynnal Gwersi 'Swimability' yng Nghanolfan Hamdden y Barri, Canolfan Hamdden Penarth a Chanolfan Hamdden Llanilltud Fawr. Mae'r gwersi hyn yn addysgu nofio i blant 5 oed a hŷn.

Trwy waith partneriaeth gyda Rhaglen Talent Anabledd Chwaraeon Cymru, rydym wedi nodi athletwyr talentog a rhannu'r wybodaeth hon gyda'r Swyddog Talent. Mae'r cynllun hwn yn cynnig hyfforddiant o'r radd flaenaf, mentora a chyngor ychwanegol i'r athletwyr hyn.

Mae adran Datblygu Chwaraeon a Chwarae y Fro yn ymfalchïo mewn creu cyfleoedd teg i bobl anabl gymryd rhan mewn chwaraeon. Rydym yn sicrhau bod hyn yn digwydd mewn amgylchedd sy'n addas i ystod o anghenion unigol.

**Merched a genethod**

Fel rhan o'n cynllun chwaraeon, mae gennym gynllun o'r enw 'Girls on the Move' i sicrhau bod mwy o ferched yn cymryd rhan mewn chwaraeon. Mae hyn yn flaenoriaeth i un o'n noddwyr, Chwaraeon Cymru, ac i'n cynllun chwaraeon ein hunain. Fe weithion ni ar brojectau megis codi hwyl, tenis, ffitrwydd, pêl-droed merched, rygbi a dawns. Fe wnaethon ni hefyd gynnal yr ymgyrch March on Girls. Roedd hyn i annog merched i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Fe wnaeth 13 o glybiau gymryd rhan. O ganlyniad, fe wnaeth 91 o ferched gymryd rhan mewn 43 sesiwn yn y clybiau lleol yn ystod mis Mawrth.

Dangosodd yr Arolwg Chwaraeon Ysgol y canlynol:

- Cymerodd 48% o ferched yn y Fro ran mewn chwaraeon o leiaf tair gwaith yr wythnos;
- Cymerodd 69% o ferched o gymharu â 71% o fechgyn mewn ysgolion cynradd ran mewn chwaraeon clwb o leiaf unwaith yr wythnos;
- Cymerodd 62% o ferched o gymharu â 72% o fechgyn mewn ysgolion uwchradd ran mewn chwaraeon clwb o leiaf unwaith yr wythnos.

Mae'r gwahaniaeth o ran canran y merched a bechgyn oed cynradd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon unwaith yr wythnos yn eithaf bach. Mae'r gwahaniaeth o ran canran y merched a bechgyn uwchradd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon unwaith yr wythnos wedi cynyddu. Fodd bynnag, o gymharu â ffigurau cenedlaethol, mae nifer y merched uwchradd a

gymerodd ran mewn chwaraeon yn dda. Byddwn yn parhau i weithio ar brojectau i ferched yn y grŵp oedran hwn i gau'r bwlch o ran y rhywiau.

### Y Gymuned Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig

Gall unrhyw un ymuno yn ein gweithgareddau chwaraeon. Fodd bynnag, rydym wedi helpu rhai grwpiau i ymgeisio am gyllidau Cist Cymunedol i redeg proejctau ar gyfer grwpiau pobl dduon, asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Er enghraifft, helpodd y Tîm Datblygu Chwaraeon y Grŵp Merched Rainbow i gael cyllid ar gyfer sesiynau dawns Bollywood i ferched o gefndir lleiafrifoedd ethnig. Roedd gennym hefyd sesiynau nofio i ferched yn unig yng Nghanolfan Hamdden y Barri.

### Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldeb

Rydym yn rheoli'r gronfa Cist Cymunedol. Rydym yn cael hyn gan Chwaraeon Cymru. Gall clybiau ymgeisio am arian i gynyddu cyfleoedd chwaraeon yn y gymuned. Gall y clybiau ddefnyddio peth o'r arian hwn i ddelio ag anghydraddoldeb. Mae hyn yn helpu i wella cyfleoedd ar gyfer gwahanol grwpiau gan gynnwys:

- pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig;
- merched a genethod;
- pobl anabl; a
- phobl o ardaloedd difreintiedig.

Cafodd o leiaf 9 project eu targedu o ran anghydraddoldeb. Roedd hyn yn cynnwys projectau a roddodd fwy o gyfleoedd i bobl anabl, merched, a merched o grŵp lleiafrifoedd ethnig.

### Hyrwyddo Chwaraeon

Rydym yn defnyddio lluniau o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli wrth hyrwyddo ein chwaraeon. Rydym yn gobeithio bod hyn yn annog amrywiaeth eang o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon.

**Atgyfeirio i Ymarfer Corff**

Rydym yn cynnal cynllun atgyfeirio i ymarfer corff. Dyma lle mae doctoriaid yn cyfeirio pobl atom ni i'w helpu i wella o salwch neu anaf. Mae'r cynllun hwn ar agor i bawb ac mae'n denu defnydd helaeth o grwpiau a ddiogelir.

**Parciau**

Rydym yn falch iawn bod gennym saith parc 'baner werdd'. Mae'n rhaid i ni ddangos ymrwymiad i gydraddoldeb fel rhan o'r asesiad i gael baner werdd ar gyfer parc. Rydym wedi gwneud gwahanol bethau mewn gwahanol barciau i gyflawni hyn. Mae'r pethau yr ydym wedi eu gwneud yn cynnwys:

- gwella mynediad i bobl anabl;
- darparu offer chwarae arbenigol;
- darparu cyfleoedd profiad gwaith i grwpiau a ddiogelir, fel y rheiny ag anawsterau dysgu.

**Gweithio fel Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall**

Fe wnaethon ni barhau i fod yn aelod o Raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall yn 2017. Gyda chymorth Stonewall, rydym wedi datblygu cynllun gweithredu i wella'r gweithle i bobl lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau ein bod ni'n eu trin yn deg pan fyddant yn gyflogeion neu'n ymgeisio am swyddi.

**Gwerthuso Swyddi**

Mae gennym gynllun gwerthuso swyddi ar waith. Mae'r cynllun hwn ar gyfer staff a delir dan y cytundeb cyfunol Statws Sengl. Mae'n sicrhau bod ffordd systematig o benderfynu ar dâl ar gyfer swydd. Mae hyn yn arwain at dâl cyfartal o werth cyfartal. Mae canlyniadau gwerthusiad swydd wedi'u cysylltu â'n system tâl a graddio. Rhoddom system tâl a graddio ar waith ym mis Mawrth 2012. Mae wedi ein helpu i dalu pobl mewn ffordd deg a chyson.

Mae ffactorau eraill sy'n effeithio ar dâl pobl megis y math o swyddi maen nhw'n dewis eu gwneud. Mae dynion a merched yn aml yn dewis gwneud swyddi y mae dynion a merched wedi eu gwneud yn draddodiadol. Gelwir hyn yn arwahanu galwedigaethol. Mae'n aml yn ffactor o ran bod bwlch rhwng tâl dynion a merched – bwlch tâl rhwng y rhywiau.

Fel rhan o'n Cynllun Gweithlu, rydym yn parhau i edrych am ffyrdd o leihau'r bwlch tâl rhwng y rhywiau. Ers 2013, rydym yn asesu swyddi newydd a newidiol trwy ein system gwerthuso swyddi. Fel rhan o hyn, rydym yn meddwl am y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad sydd angen ar bobl i wneud y swydd. Mae nifer o newidiadau fel hyn wrth i ni aildrefnu ein hadrannau. Mae defnyddio'r dull hwn yn cadw tâl a graddio'n deg a chyson.

**Y Cynllun Gweithlu (2016 - 2020)**

Cafodd cynllun gweithlu newydd wedi ei roi ar waith yn 2016 (Cynllun Gweithlu 2013-2017 gynt). Mae'r cynllun hwn yn sicrhau bod gennym:

- y bobl gywir;
- gyda'r sgiliau cywir;
- yn y lle cywir;
- ar yr adeg gywir.

Mae hyn yn ein helpu i ddarparu ein gwasanaethau ar adeg pan fo heriau ariannol sylweddol. Rydym yn bwriadu sicrhau bod ein gweithlu yn debyg i wneuthuriad y gymuned leol o ran grwpiau a ddiogelir.

Rydym wedi rhoi mewn lle ffordd o gofnodi nodweddion a ddiogelir ein staff. Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu cymharu ein hystadegau gydag ystadegau lleol a chenedlaethol i weld pa gynnydd yr ydym yn ei wneud. Yna gallwn gynllunio sut i wneud gwelliannau.

Fel rhan o'r cynllun gweithlu, mae strategaeth wedi'i chymeradwyo i edrych ar gynyddu nifer y cyflogeion rhwng 16 a 24 oed. Bydd y ffocws ar ddatblygu cynllun prentisiaeth mewn partneriaeth â Choleg Caerdydd a'r Fro.

## Gwybodaeth benodol ynghylch cyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth ar hyfforddiant a thâl

Rydym wedi bod yn casglu data cyflogaeth am nifer o flynyddoedd. Rydym wedi casglu gwybodaeth ar y nodweddion a ddiogelir canlynol:

- rhyw;
- hil;
- anabledd; ac
- oedran.

Rydym wedi parhau i ddatblygu systemau newydd. Bydd hyn yn gwneud i ni adrodd ar fwy o nodweddion a ddiogelir yn y dyfodol. Byddwn yn gallu casglu a chofnodi gwybodaeth ar:

- cyfeiriadedd rhywiol;
- ailbennu rhywedd;
- hunaniaeth rywiol;
- hunaniaeth genedlaethol;
- crefydd neu gred; a
- statws priodasol.

Roedden ni eisiau canolbwyntio ar gamau allweddol. I'n helpu ni, defnyddiom ganllawiau gan Lywodraeth Cymru. Enw'r canllaw yw 'Collecting Equality Data: Harmonised Standards and Best Practice'.

Newidiom y ffurflen a ddefnyddiwn i gasglu gwybodaeth am bobl pan fônt yn ymgeisio am swyddi. Rydyn ni nawr yn gofyn am nodweddion a ddiogelir ar y ffurflen. Gallwch weld y ffurflen yn Atodiad 3.

Fe wnaethon ni lunio arolwg staff, gan ei ddefnyddio i ofyn i staff am eu nodweddion a ddiogelir. Fe wnaethon ni wella'r ffordd yr ydym yn cofnodi'r wybodaeth hon. Mae gwneud hyn yn helpu i wella'r hyn yr ydym yn ei wybod am grwpiau a ddiogelir yn ein gweithlu.

Rydym wedi edrych ar y wybodaeth a gasglwyd. Gallwch weld yr hyn a ddysgon ni yn Atodiad 5 o'r adroddiad hwn. Mae yna hefyd gynllun gweithredu (Atodiad 6). Mae'n dangos yr hyn yr ydym wedi'i wneud ers y flwyddyn flaenorol a'r hyn a wnawn i ddelio â phryderon yn y dyfodol.

Byddwn yn parhau â'r gwaith hwn. Rydym eisiau gallu adrodd ar yr holl nodweddion a ddiogelir. Ym mis Chwefror 2012, sefydlom grŵp i wneud y gwelliannau hyn. I wneud hyn, fe wnaethom:

- gytuno ar gynllun;
- edrych ar ganllawiau gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol;
- mynychu gweithdai a gynhelir gan Gymdeithas Awdrudod Lleol Cymru;
- trafod gwelliannau a sut i adrodd ar y rhain.

Nid oes gennym yr holl wybodaeth sydd angen i ni ei gasglu i ddiwallu'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol. Mae'r rhesymau dros hyn fel a ganlyn:

- mae angen diweddaru systemau adrodd ymhellach;
- mae angen casglu data ychwanegol a chyfoes ar angenion nodweddion a ddiogelir;

- mae canllawiau cyfyngedig yn golygu bod angen i ni esbonio’r hyn yr oedd rhaid i ni ei adrodd.

Rydym wedi gwella ein data ar yr iaith Gymraeg. Fe wnaethon ni gynnal arolwg ar gyfer pob aelod o staff i gael gwybodaeth gyfoes ar sgiliau Cymraeg. Roedd hyn er mwyn diwallu'r Safonau Iaith a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2016.

Hyd yn oed pan ydym yn gwneud y gwelliannau hyn, efallai na fyddwn yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnom. Rydyn ni’n meddwl y bydd rhai pobl yn dewis peidio â dweud wrthym am rai o’u nodweddion a ddiogelir. Rydyn ni’n annog pobl i wneud hynny drwy esbonio:

- pam ein bod yn gofyn am y wybodaeth hon; a
- sut y gallwn ei defnyddio i ddiwallu eu hanghenion yn well.

Daw’r wybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn o systemau yn Adnoddau Dynol. Mae hyn yn golygu bod y wybodaeth mor gywir a chyflawn â phosibl. Rydym yn gwybod y bydd angen i ni barhau i weithio ar y wybodaeth hon ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol. Bydd hyn yn ein helpu i ddiwallu gofynion y ddyletswydd gyffredinol hon.

## Sut i Gysylltu â Ni

Os hoffech roi adborth i ni ar yr adroddiad hwn, dyma ein manylion cyswllt:

Y Tîm Cydraddoldeb
Perfformio a Datblygu
Adnoddau
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y Barri
CF63 4RU

E-bost: nhinton@valeofglamorgan.gov.uk neu
ljbrown@valeofglamorgan.gov.uk

Rhif ffôn: 01446 709362.